

Cyflwyniad - Talu Cynghorwyr

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) yn nodi y dylai pob awdurdod gyhoeddi Atodlen Flynyddol o Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau. Dengys yr atodlen hon yr enwau a'r symiau y mae gan aelodau (cynghorwyr) ac aelodau cyfetholedig hawl iddynt yn ôl rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Mae'n rhaid i'r atodlen gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- a) Enwau aelodau a fydd yn derbyn y lwfans sylfaenol yn unig;
- b) Enwau aelodau a fydd yn derbyn Cyflog Uwch Band 1 a Band 2, y swydd a'r portffolio sydd ganddynt a'r swm a delir;
- c) Enwau aelodau a fydd yn derbyn Cyflog Uwch Band 3 a Band 4, y swydd a'r portffolio sydd ganddynt a'r swm a delir;
- ch) Enwau aelodau a fydd yn derbyn y tâl aelod cyfetholedig a'u statws, boed hwnnw'n gadeirydd neu'n aelod cyffredin.

Yn ogystal â'r uchod, mae'n rhaid cynnwys y datganiadau canlynol yn yr atodlen:

- a) Cadarnhad gan yr awdurdod nad yw'r cyngor wedi mynd y tu hwnt i gyfanswm y cyflogau uwch a bennwyd iddo, heblaw am gynnwys rhywun i gyflenwi dros dro yn ystod absenoldeb deiliad penodedig y swydd;
- b) Datganiad o dreuliau caniatol a'r dyletswyddau y gellir hawlio costau gofal, teithio a chynhaliaeth amdanynt;
- c) Trefniadau ar gyfer talu cyflogau, lwfansau a thaliadau i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod; trefniadau ar gyfer hawlio treuliau gofal, teithio a chynhaliaeth, trefniadau ar gyfer osgoi dyblygu a threfniadau ar gyfer ad-dalu cyflogau, lwfansau a thaliadau. Mae'n rhaid i'r atodlen hefyd gynnwys y dyletswyddau y gall aelodau ac aelodau cyfetholedig hawlio lwfansau gofal, teithio a chynhaliaeth amdanynt.

Hefyd mae'n rhaid i awdurdodau lleol nodi yn yr atodlen:

- a) A oes datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd ar waith;
- b) A oes disgrifiadau rôl deiliaid swyddi cyflog uwch ar waith;
- c) A yw cofnodion o bresenoldeb cynghorwyr yn cael eu cadw;
- ch) A yw cofnodion o unrhyw weithgaredd cynghorydd yn cael eu cadw;
- d) Adroddiadau blynyddol.